



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Adolygiad Blynyddol
Prifysgol Caerdydd
2015

www.caerdydd.ac.uk

Cyflwyniad

gan yr Is-Ganghellor

Fyddai 2015 ddim wedi gallu dechrau'n well i Brifysgol Caerdydd, yn dilyn canlyniad eithriadol Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014, sy'n ein gosod yn un o'r pum Prifysgol gorau yn y DU am ansawdd ein gwaith ymchwil, ynghyd â Choleg Imperial, LSE, Rhydychen a Chaergrawnt. Gosododd y llwyddiant eithriadol hwn y cywair ar gyfer yr hyn a brofodd yn flwyddyn o gynnydd sylweddol a pharhaus ym mhob un o'r meysydd gweithgarwch allweddol.

Er bod yr Adolygiad Blyneddol hwn o reidrwydd yn ddethol, gobeithio y bydd yn cynnig adlewyrchiad teg o'n blwyddyn. Rydym ni wedi cynyddu ein henw da am ymchwil sy'n arwain y byd, wedi gwella profiad ein myfyrwyr ac adeiladu ein proffil rhyngwladol. Mae ein cymunedau lleol wedi elwa hefyd, wrth i ni helpu i fynd i'r afael â thlodi, rhoi hwb i'r economi a gwella iechyd, addysg a lles pobl Cymru.

Fel prif Brifysgol ymchwil Cymru rydym wedi torri tir newydd mewn llawer o feysydd. O adeiladu tŷ carbon positif cyntaf y DU a chynnal y treial cyntaf erioed o goncrit hunan-iachau, i ddarganfod yr hyn sydd o bosibl yn achosi asthma a datgelu cysylltiad uniongyrchol rhwng brecwast iach a graddau da, mae ein hacademyddion yn parhau i gynhyrchu ymchwil rhagorol gydag effaith cymdeithasol gwirioneddol.

Dyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines nodedig arall i ni - ein chweched - i'n Canolfan MRC flaenllaw ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig. Mae'r anrhydedd hon yn dyst i'r ymchwil sy'n arwain y byd yn y maes pwysig hwn dan arweiniad rhagorol yr Athro Syr Mike Owen.

Yn yr hydref, lansiwyd pump o sefydliadau Ymchwil Prifysgol blaenllaw newydd. Nod y Sefydliadau Ymchwil yw datblygu ffyrdd o wella clefydau cronig difrifol, lleihau troseddau a chynyddu diogelwch, defnyddio 'Data Mawr' i fynd i'r afael â phroblemau'r byd real, datblygu dulliau doethach o ddefnyddio dŵr yng nghanol prinder cynyddol byd-eang, a chefnogi'r broses o ddatblygu systemau ynni clyfar. Ochr yn ochr â'n sefydliadau ymchwil sy'n bodoli eisoes,

bydd y rhain yn golygu y gallwn gydgyssylltu ein hymdrechion i fynd i'r afael â rhai o heriau ymchwil mwyaf y byd yn strategol.

Rydym hefyd wedi sicrhau ein hail benodiad Sêr Cymru. Ymunodd yr Athro Diana Huffaker â ni o Brifysgol Califfornia yn Los Angeles. Bydd ei harbenigedd ym maes peirianeg a deunyddiau uwch yn hwb gwirioneddol i'n gwaith ymchwil ar led-ddargludyddion cyfansawdd.

Mae penodi'r Athro Huffaker yn gam mawr ymlaen yn ein partneriaeth gyda byd diwydiant sef, yn yr achos hwn, gydag IQE, cwmni sy'n cynhyrchu lled-ddargludyddion. Nod y bartneriaeth yw pontio'r bwlch rhwng ymchwil gwyddonol sylfaenol a chymwysiadau masnachol y byd go iawn.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried bod buddiannau ein myfyrwyr yr un mor bwysig â'n nodau ymchwil, ac rywf yn falch i ddweud i ni sicrhau ein lefel uchaf erioed o foddhad myfyrwyr yn 2015. Canfu'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS) bod 90% o'r myfyrwyr yn fodlon gyda'u profiad cyffredinol. Mae'r ffigurau diweddaraf hefyd yn dangos bod ein graddedigion yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth, astudiaethau pellach neu'r ddau o fewn chwe mis i raddio nag unrhyw brifysgol arall yn y grŵp Russell.

Mae ein myfyrwyr yn haeddu dim llai na'r gorau, a dyna pam rydym wedi dechrau ar raglen fuddsoddi miliynau o bunnoedd i uwchraddio a gwella ein cyfleusterau addysgu a darlithio ynghyd â chyhoeddi cynlluniau cyffrous ar gyfer Canolfan Bywyd Myfyrwyr bwysig.

Rydym hefyd yn ymgynghori â'n cymuned myfyrwyr ar gynlluniau ar gyfer llyfrgell newydd

Mae rhagoriaeth o ran addysgu'n dibynnu ar fwy na seilwaith ffisegol yn unig, a dyna pam y lansiwyd y Ganolfan Arloesedd Addysg yn 2015. Bydd y Ganolfan yn helpu i sicrhau bod academyddion Caerdydd yn darparu addysgu blaengar, a arweinir gan ymchwil. Y nod yw i Gaerdydd i fod ar flaen y gad gyda datblygiadau newydd mewn addysg ac y bydd dysgu ac addysgu yn amlwg yn ein gweithgarwch academaidd.

Roeddwn hefyd wrth fy modd ein bod ni wedi cael ein dewis fel enillydd Gwobr Pencampwr Cyflog Byw 2015 rhanbarth Cymru, yr unig brifysgol yn y DU i gael y gydnabyddiaeth hon. Mae'r gwobrau, a gydlynir gan y Sefydliad Cyflog Byw, yn dathlu Cyflogwyr Cyflog Byw sydd wedi gwneud cyfraniadau mawr i gymunedau a diwydiannau, drwy weithredu'r Cyflog Byw, a chydabod ei bwysigrwydd, a all newid bywydau.

Roeddem yn falch iawn i allu mynegi ein gwerthfawrogiad o gyflawniadau pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, Caerdydd a Chymru hefyd. Yn ogystal â dathlu llwyddiant ein 7,000 o fyfyrwyr oedd yn graddio, ymunodd capten tîm rygbi Cymru, Sam Warburton â'r darlledwr Susanna Reid, sylfaenydd JoJo Maman Bébé Laura Tenison MBE, a'r nofelydd Prydeinig Philippa Gregory i dderbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd i gydnabod eu llwyddiannau eithriadol yn eu meysydd.

Roedd codi ein proffil rhyngwladol yn flaenoriaeth allweddol arall. Mae Rhestr QS



o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc yn rhoi sgôr i oddeutu 894 o sefydliadau ledled y byd, gan ystyried dros 100 miliwn o sylwadau a thros 14,000 o raglenni Prifysgol i lunio rhestr o brifysgolion blaenllaw'r byd yn ôl maes pwnc. Ein tri uchafbwynt oedd: Pensaerniaeth/Amgylchedd Adeileddig yn rhif 29 yn y byd, Seicoleg yn rhif 36 a Daearyddiaeth yn rhif 38. Safle cyffredinol Prifysgol Caerdydd yw 122, i fyny o 143 yn 2013, felly rydym yn parhau ar y llwybr cywir i gyrraedd y 100 uchaf fel y rhagwelwyd.

Am y tro cyntaf yn y DU, bu Liu Yandong, Dirprwy Brif Weinidog Gweriniaeth Pobl Tsieina, yn dadorchuddio plac yng Nghaerdydd, fel symbol o lansiad coleg newydd dan arweiniad Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Normal Beijing. Bydd myfyrwyr Cyd-Goleg Astudiaethau Tsieinëeg Caerdydd-Beijing yn dilyn cwricwlwm Astudiaethau Iaith a Diwylliant Tsieina a ddatblygwyd ar y cyd, gan arwain at ddyfarniad israddedig deul gan y ddwy brifysgol.

Un o'n hamcanion allweddol yw y bydd 17% o'n myfyrwyr yn treulio amser yn astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor yn ystod eu hastudiaethau yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth yn dangos bod y gweithgaredd hwn yn gwella canlyniadau gradd ac yn golygu y bydd myfyrwyr yn fwy tebygol o gael swydd ar ôl iddynt orffen.

Rydym bellach wedi cyrraedd 16.2%, i fyny o 12% yn 2012, a chofnodwyd y nifer uchaf erioed o leoliadau gwaith yn Ewrop i'n

myfyrwyr, gyda miloedd ohonynt yn manteisio ar ein rhaglen gynyddol boblogaidd *leithoedd i Bawb*.

Rwyf yn falch iawn gyda'r cynnydd hwn ac yn hyderus y gwnawn gyrraedd ein targed y flwyddyn nesaf.

Rwyf i'n ymrwymedig i addysg fel profiad sy'n newid bywyd yr unigolyn, ond mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar effaith ehangach y prifysgolion.

Yn ôl adroddiad London Economics a gyhoeddwyd yn 2015, mae Prifysgol Caerdydd yn cyfrannu £2.7 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn, gan gynhyrchu dros £6 am bob £1 y mae'n ei gwario.

Yn arwyddocaol, roedd yr adroddiad yn ystyried manteision dysgu ac addysgu, yn arbennig effaith myfyrwyr sy'n ennill cyflogau gwell o ganlyniad i'w haddysg, ac sy'n talu mwy o dreth. Roedd effaith cyfunol holl weithgarwch dysgu ac addysgu Prifysgol Caerdydd, a fesurwyd fel derbyniadau trethiant ac enillion cynyddol i raddedigion, yn £968m.

Er ein bod yn hanfodol i economi Cymru, rydym ar yr un pryd yn ymrwymedig i gynorthwyo'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Parhaodd ein prosiectau ymgysylltu blaenllaw â'u gwaith gyda phobl leol yng Nghaerdydd ac yn ehangach yng Nghymru, ac ehangodd ein Prosiect Phoenix Cymru o Blaid Affrica gwmpas ei waith yn Namibia.

Roedd gennym ni fwy o bresenoldeb nag erioed yn yr Eisteddfod Genedlaethol, tra bo prosiect Treftadaeth CAER yn Nhrelái yn parhau i ddenu niferoedd mawr o bobl o bob cefndir i weithio gyda'n hacademyddion ar y safle archeolegol hynod ddifyr hwn.

Gwnaethom yn siŵr hefyd fod ein presenoldeb yn amlwg mewn digwyddiadau chwaraeon mawr. Mae noddî'r Velothon yn golygu bod miliwn neu fwy o bobl sydd â diddordeb mewn seiclo ar draws y byd yn ymwybodol ohonom ni, a datgelwyd mai ni yw noddwr teitl Hanner Marathon Byd yr IAAF, sy'n gyfle gwych nid yn unig i fod yn rhan flaenllaw o ddigwyddiad chwaraeon rhyngwladol pwysig ond i gymhwyso ein harbenigedd ymchwil a'n presenoldeb o fewn y brifddinas.

O dynnu popeth at ei gilydd, mae gan Brifysgol Caerdydd lawer iawn i ymfalchïo ynddo.

Mae 2016 eisoes yn datblygu'n flwyddyn brysur. Gallwn edrych ymlaen at gwblhau Canolfan Delweddu Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd a chynnydd pellach ar gwblhau ein cynlluniau cyffrous i ehangu ein cyfleusterau ymchwil ac addysgu a'r Campws Arloesi.

Gobeithio y cewch bleser wrth ddarllen yr Adolygiad Blynnyddol hwn, ac edrychaf ymlaen at fynd o nerth i nerth y flwyddyn nesaf.

Yr Athro Colin Riordan

Llywydd ac Is-Ganghellor
Prifysgol Caerdydd

Ymchwil

Rydym yn Brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sy'n denu rhai o ymchwilwyr gorau'r byd, ac wedi'n rhestru ymhlith y pum prifysgol orau yn y DU am ragoriaeth ymchwil. Hefyd mae gennym ddiwylliant arloesedd sy'n datblygu, ac sy'n helpu i greu cysylltiadau rhwng diwydiant, busnes a llywodraeth a'n hacademyddion. Mae hyn yn helpu i feithrin entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr ac yn hyrwyddo busnes ar lawr gwlad.

Lansio pum Sefydliad Ymchwil blaenllaw

Lansiwyd pum Sefydliad Ymchwil blaenllaw newydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhai o broblemau gwyddonol mwyaf dybryd y byd. Nod y Sefydliadau Ymchwil yw datblygu ffyrdd o wella clefydau cronig mawr, lleihau troseddau a chynyddu diogelwch, defnyddio 'Data Mawr' i fynd i'r afael â phroblemau go iawn y byd, datblygu dulliau callach o ddefnyddio dŵr yng nghanol prinder cynyddol byd-eang, a chefnogi'r broses o ddatblygu systemau ynni doethach. Daw'r lansiad hwn â chyfanswm nifer y sefydliadau ymchwil pwrpasol i naw.

Brecwast da, graddau da?

Datgelodd ein harbenigwyr iechyd cyhoeddus gyswllt uniongyrchol rhwng ansawdd brecwast disgyblion a'u cyrhaeddiad addysgol. Bu'r astudiaeth o 5,000 o blant rhwng 9 ac 11 oed mewn 100 o ysgolion cynradd yn archwilio'r cyswllt rhwng bwyta brecwast, ac ansawdd y brecwast hwnnw, a chyrhaeddiad dilynol mewn Asesiadau Statudol gan Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2, 6-18 mis yn ddiweddarach.

Canfu'r astudiaeth hon - sef yr astudiaeth fwyaf hyd yma sy'n edrych ar yr effeithiau hydredol ar berfformiad ysgol safonol yn ôl pob tebyg - fod plant sy'n bwyta brecwast, ac sy'n bwyta brecwast o ansawdd gwell, yn cael gwell canlyniadau academaidd.

Treial cyntaf y DU i goncrit hunaniachäol

Cynhelir y treial mawr cyntaf yn y DU i goncrit hunaniachäol ar safle yng nghymoedd de Cymru, dan arweiniad tîm o ymchwilwyr o'n Hysgol Peirianeg.


Mae'r prosiect yn treialu tair technoleg wahanol ar gyfer concrit hunaniachäol mewn lleoliadau byd real, gyda golwg ar eu hymgorffori mewn un system y gellir ei defnyddio i atgyweirio concrit yn awtomatig yn yr amgylchedd adeiledig.

Ydy'r amddiffyniad olaf yn erbyn heintiau wedi'i chwalu?

Datgelodd un o'n gwyddonwyr y gallai'r amddiffyniad gwrthfotig olaf fod wedi'i chwalu.

Gan weithio gyda chydweithwyr yn Tsieina, datgelodd yr Athro Tim Walsh enyn newydd (MCR-1) sy'n galluogi bacteria i gael ymwrthedd uchel i bolimicsinau.

Mae dod o hyd i enyn MCR-1 yn Tsieina yn peri cryn bryder gan ei fod yn dangos methiant y grŵp olaf o wrthfotigau - polimicsinau - a methiant ein haen amddiffyn olaf yn erbyn haint.



'Golau gwyrdd' gwerth £17.3m i Sefydliad Ymchwil Lled-ddargludyddion Cyfansawdd cyntaf y DU

Cyhoeddwyd dyfarniad o £17.3m gan Lywodraeth y DU fydd yn ein gosod ar flaen y gad ym maes technoleg lled-ddargludyddion.

Bydd y cyllid, a gyhoeddwyd gan y cyn Weinidog Prifysgolion, Greg Clark AS, yn sail i'r Sefydliad Ymchwil Lled-ddargludyddion Cyfansawdd - y cyntaf o'i fath yn y DU, gyda'r potensial i ddod yn un o brif gystyrau Ewrop.

Mae'r dyfarniad hwn yn ychwanegu at y £12m sydd eisoes wedi'i addo gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Sefydliad. Bydd yr arian yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng IQE Plc, prif gyflenwr wafferi Lled-Ddargludyddol Cyfansawdd y byd, sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd, a'r Brifysgol.



Tŷ ynni carbon positif 'clyfar'

Mae arbenigwyr o Ysgol Pensaernïaeth Cymru wedi dylunio ac adeiladu tŷ clyfar ynni cost isel cyntaf y DU sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac sy'n gallu allforio mwy o ynni i'r grid trydan cenedlaethol na'r hyn mae'n ei ddefnyddio. Adeiladwyd y tŷ, a ddyluniwyd gan yr Athro Phil Jones a'i dîm, fel model cychwynnol i fodloni targedau llym a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer tai di-garbon.

Mae perfformiad ynni di-garbon yn gyfuniad o lai o alw am ynni a chyflenwad ynni adnewyddadwy, gan ddefnyddio'r grid trydan i fewnforio ac allforio ynni. Mae storfa drydanol a thermol wedi'i defnyddio hefyd er mwyn i breswylwyr allu defnyddio'r ynni a gynhyrchir yn y tŷ yn uniongyrchol.

Addysg

Gallai ein nod ar gyfer ein myfyrwyr ddim bod yn gliriach: rydym ni am i'w profiad adlewyrchu rhagoriaeth, gyda'n myfyrwyr yn cyfranogi'n llawn yn eu profiad ac yn elwa o amgylchedd ymchwil o'r ansawdd uchaf. Mae bywyd academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd yn heriol, arloesol a gwerth chweil.

Y Ganolfan Arloesedd Addysg

Agorwyd ein hadnodd newydd sy'n canolbwyntio ar ymarfer ledled y Brifysgol i gynorthwyo i gyflawni rhagoriaeth o ran dysgu ac addysgu. Mae'r Ganolfan Arloesedd Addysg yn darparu amgylchedd diogel i academyddion gael adolygu, cadarnhau, a herio dysgu ac addysgu. Bydd yn helpu academyddion newydd i ddatblygu a thyfu yn y maes hwn a bydd yn ymdrechu i sicrhau bod ein hacademyddion ar frig eu galluoedd wrth ddarparu addysgu blaengar dan arweiniad ymchwil.

Rhestr THE o Brifysgolion Gorau'r Byd

Gan godi 26 o safleoedd, rydym ni erbyn hyn yn y 200 uchaf yn Rhestr Times Higher Education o Brifysgolion Gorau'r Byd. Mae'r naid i safle 182 yn dilyn ein safle uchaf ers pum mlynedd yn Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd. Mae'r canlyniadau'n adeiladu ar ein perfformiad ardderchog o ran safleoedd QS ar sail pwnc.

Cyrraedd y brig o ran cyflogadwyedd

Mae graddedigion Prifysgol Caerdydd yn fwy tebygol na graddedigion unrhyw brifysgol flaenllaw arall yng Ngrŵp Russell o fod mewn gwaith cyflogedig neu astudiaethau pellach o fewn chwe mis ar ôl graddio, yn ôl ffigurau newydd.

Mae ffigurau Ymadawyr Addysg Uwch diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn dangos bod 95.5% o ymadawyr gradd gyntaf amser llawn 2013/14 wedi'u cyflogi neu'n astudio, neu'r ddau, sef



Yn y llun mae Wyn Davies, sy'n athro yn yr Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol, a benodwyd gydag arian y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

2,895 o gyfanswm o 3,035. Mae hyn yn golygu mai ni yw'r gorau o blith prifysgolion Grŵp Russell am gyflogadwyedd myfyrwyr – gan ennill y blaen ar brifysgolion blaenllaw'r DU fel Rhydychen a Chaergrawnt. Mae hefyd yn cadarnhau mai Prifysgol Caerdydd sydd â'r sgôr uchaf ymhlith holl brifysgolion Cymru.

Hwb i'r ddarpariaeth Gymraeg

Cawsom hwb ariannol sylweddol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer mwy fyth o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y Coleg, sy'n gweithio i sicrhau mwy o gyfleoedd astudio i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, yn ein helpu i fuddsoddi mewn swyddi addysgu mewn Fferylliaeth, Meddygaeth a'r Gwyddorau Gofal Iechyd.

£38m o fuddsoddiad mewn mannau dysgu ac addysgu

Dechreuodd y Brifysgol ar raglen buddsoddi £38m i drawsnewid mannau dysgu ac addysgu o amgylch y Brifysgol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r gwaith yn amrywio o welliannau cosmetig i ad-drefnu mawr yn y manau sydd angen eu newid. Mae hefyd yn cynnwys darparu popeth o gyfarpar sain, gweledol a TG i brosiect dodrefnu ansawdd uchel a ddechreuodd yn yr haf. Caiff gwelliannau tebyg eu gwneud - yn dilyn rhagor o ymgynghori â staff a myfyrwyr – dros y blynyddoedd nesaf.



Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr

Llwyddom i gofnodi ein lefel uchaf erioed o foddhad cyffredinol ymysg myfyrwyr. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) 2015, roedd 90% o fyfyrwyr yn fodlon â'u profiad cyffredinol.

Mae hyn 1% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r canlyniad yn ein gosod yn uwch na chyfartaledd Cymru (85%) a'r sector gyfan (86%) ar gyfer boddhad cyffredinol. Mae hefyd yn ein gosod yn drydydd ymysg Grŵp Russell o brifysgolion elitaidd y DU.

Ymgysylltu

Cafodd ein rhaglen Trawsnewid Cymunedau effaith wirioneddol yn 2015 gyda staff ar draws tri Choleg y Brifysgol yn gweithio law yn llaw gyda chymunedau lleol i wireddu'r prosiectau. Ceir pum prif brosiect yn Trawsnewid Cymunedau sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, sefydliadau Cymreig eraill a chymunedau yng Nghaerdydd, Cymru a thu hwnt mewn meysydd megis iechyd, addysg a lles. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda'i chymunedau drwy amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu eraill sy'n cyfoethogi ein gwaith ymchwil, dysgu ac addysgu.

Creu cymunedau mwy diogel

Roedd y gwasanaethau brys i'w gweld ar strydoedd un o faestrefi Caerdydd ar gyfer wythnos llawn gweithgareddau i geisio gwneud pobl yn fwy diogel yn eu cymuned. Roedd yr Wythnos Ddiogelwch yn cynnwys themâu fel diogelwch ar y ffyrdd, iechyd, diogelwch tân a Gwarchod Cymdogaethau, mewn ymateb uniongyrchol i syniadau gan bobl yn byw yn Grangetown. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd rhwng Gweithredu Cymunedol Grangetown a phrosiect Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd.

Y Brifysgol yn cefnogi ymgyrch *Who's in Health?*

Ymunodd ein Deon Meddygaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i helpu i godi dyheadau plant ifanc, drwy sôn am yr amrywiaeth enfawr o gyfleoedd gyrfa mewn meddygaeth.

Ymwelodd yr Athro John Bligh, Deon yr Ysgol Meddygaeth ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville yng Nghaerdydd, fel rhan o'r ymgyrch *Who's in Health?*. Mae'r ymgyrch yn fenter sy'n ceisio rhoi cipolwg i blant ysgol gynradd ar fywyd fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, i'w hysbrydoli a dangos iddynt pa mor bwysig mae llythrennedd a rhifedd ar gyfer unrhyw broffesiwn yn y dyfodol.

Arsylwi ar y bydysawd o'r ystafell ddosbarth

O ganlyniad i arian newydd sydd wedi'i roi i brosiect gan Brifysgol Caerdydd, cafodd disgyblion cynradd yng Nghymru y cyfle i edrych ar y bydysawd drwy ddefnyddio telesgopau uwch-dechnoleg o gwmpas y byd. Heb orfod symud cam o'u hystafell ddosbarth, bydd y plant ysgol yn gallu ymchwilio i lu o ryfeddodau'r cosmos drwy reoli telesgopau o bell dros y rhyngwyd.

Mae'r fenter yn rhan o gam nesaf ein prosiect *Y Bydysawd yn y Dosbarth* sydd wedi cael arian am dair blynedd arall gan Academi Wyddoniaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru.



Eisteddfod 2015

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, bu'n harbenigwyr yn taflu goleuni ar rai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu Cymru.

Roedd diwylliant a threfnadaeth yn amlwg fel arfer, gyda sgysiau ar ymchwil arloesol i'r Mabinogion a'r modd mae tafodieithoedd Cymraeg yn esblygu dros amser.

Cafwyd golwg ffres ar yr Ŵyl a'r gymuned o'i chwmpas yn www.llaismaes.com, papur newydd digidol yr Eisteddfod. Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd oedd yn gyfrifol amdano ynghyd â Chanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol y Brifysgol, a chynhaliwyd gweithdai i alluogi creu a rhannu mwy o newyddiaduraeth ddigidol Gymraeg uwch ei safon.

Hefyd lansiwyd ein rhaglen *Cymraeg i Bawb* sy'n annog ein myfyrwyr i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u hastudiaethau rheolaidd.



Yn y llun mae cyn-fyfiwr PhD Supachai Cheunjitwongsa, a ddysgodd Gymraeg tra'n astudio ei PhD yn yr Ysgol Deintyddiaeth

Mencap Cymru a myfyrwyr y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd yn lansio pecyn cymorth

Lansiwyd cyfres o ganllawiau newydd gan Mencap Cymru ar y cyd ag Ysgol y Gyfraith i geisio helpu oedolion ag anabledd dysgu a'u gofaluwr i gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y pecynnau cymorth yw grymuso gofaluwr a theuluoedd oedolion ag anableddau dysgu a'u helpu i ddeall sut i gyrchu'r gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn.

Gwreiddiau'r ddinas yn dod yn fyw mewn ffilm gymunedol

Roedd cloddiad cymunedol pwysig ar un o fryngaerau mwyaf arwyddocaol Cymru o Oes yr Haearn yn destun ffilm newydd. Ar y cyd â Phrosiect Treftadaeth CAER, y prif artist Paul Evans a'r gwneuthurwr ffilmiau Jon Harrison, gweithiodd disgyblion o ddwy ysgol leol mewn grwpiau bach i greu cyfres o animeiddiadau byr ar gyfer ffilm o'r enw CAER HEDZ.

Mae Prosiect Treftadaeth CAER yn brosiect ymchwil ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd, Cymunedau yn Gyntaf Trelái a Chaerau, ysgolion lleol a thrigolion lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar un o safleoedd archeolegol mwyaf pwysig, ond mwyaf anhysbys Caerdydd, sef bryngaer Caerau, o Oes yr Haearn.

Cael effaith ac achub bywydau

Mae Prosiect Phoenix yn defnyddio arbenigedd o Gymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Namibia i ddarparu hyfforddiant anaesthesia arbenigol yn y wlad am y tro cyntaf. Dim ond llond llaw o anaesthetegyddion arbenigol sydd yn Namibia, felly mae llawfeddygaeth a gofal critigol yn aml yn dibynnu ar swyddogion meddygol sydd heb dderbyn llawer o hyfforddiant anaesthesia.

Aeth pum uwch-anaesthetegydd o dde Cymru i ardal anghysbell yn ne Affrica i roi hyfforddiant fydd yn achub bywydau fel rhan o'n prosiect unigryw. Roedd y cwrs dwys mewn ardal ddifffraith yn Namibia yn rhoi sgiliau hanfodol mewn anaestheteg a gofal critigol i swyddogion meddygol.

Hyfforddwyd oddeutu 16 o swyddogion meddygol – yn gweithio mewn clinigau, ysbytai a lleoliadau cymunedol yn Namibia – yn ysbyty Oshakati yng ngogledd y wlad, ger y ffin ag Angola dros gyfnod o bythefnos.



Rhyngwladol

Mae ein cymuned fyd-eang, ein henw da a'n partneriaethau yn rhan hanfodol o bwy ydym ni. Rydym ni'n awyddus i ddenu myfyrwyr, academyddion ac ymchwilwyr o'r ansawdd gorau o bob rhan o'r byd, gan gyfoethogi'r profiad dysgu i fyfyrwyr a dod â phersbectif ehangach i'n haddysgu a'n hymchwili.

Cefnogi'r ymdrechion yn Nepal ar ôl y trychineb

Bu ein hymchwili yn helpu ymdrechion achub brys yn Nepal ar ôl y daeargrynfeydd dinistriol, drwy asesu'r perygl o dirlithriadau pellach mewn amser real. Datblygodd Dr Robert Parker a'i dîm o Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr raglen unigryw o'r enw *ShakeSlide*. Roedd y rhaglen gyfrifiadurol yn rhoi gwybodaeth amhrisiadwy i dimau asesu trychinebau wrth roi asesiadau iddyn nhw ar ôl y daeargryn.

Lansio gradd gyntaf Cymru mewn Portiwgaleg

Ymwelodd Llysgennad Portiwgal yn y DU â'r Brifysgol i lansio gradd gyntaf Cymru mewn Portiwgaleg.

Lansiodd Ei Ardderchogrwydd, Mr Joao de Vallera, y radd newydd mewn digwyddiad 'Gŵyl Diwylliant Portiwgal' a drefnwyd gan y Brifysgol. Yn bresennol, roedd staff, myfyrwyr, cynrychiolydd Sefydliad Camões, Regina Duarte, a'r bardd a'r nofelydd o Bortiwgal, Ana Luísa Amaral.

Ymunodd Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd â grŵp dethol o brifysgolion yn y DU i lofnodi cytundeb â Camões, Instituto da Língua e da Cooperação - asiantaeth llywodraeth Portiwgal sy'n gyfrifol am gefnogi addysgu Portiwgaleg mewn ysgolion a phrifysgolion. Mae'r cytundeb yn paratoi'r ffordd i gyflwyno rhaglen gradd Portiwgaleg sydd newydd ei dilyn.

Dyblu'r nifer o leoliadau gwaith Ewropeaidd

Yn 2015, teithiodd dros 100 o'n myfyrwyr i Ewrop ar gyfer lleoliadau gwaith fel rhan o'u profiad fel myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r lleoliadau gwaith hyn yn cynnig profiad o'r 'byd go iawn' i fyfyrwyr yn ogystal â chyfle i sefydlu partneriaethau gydag amrywiaeth o sefydliadau. Mae hyn yn ein helpu ni i ddenu arian i drawsnewid syniadau arloesol gan Brifysgol Caerdydd yn rhaglenni ymchwil ar draws Ewrop gyfan.

Mae gennym ymhell dros 300 o gytundebau dwyochrog gyda sefydliadau ar draws Ewrop, a phob blwyddyn rydym ni'n croesawu tua 350 o fyfyrwyr Ewropeaidd Erasmus+.

Hyrwyddo addysg uwch y DU ar y llwyfan byd-eang

Ymunodd Is-Ganghellor y Brifysgol, yr Athro Colin Riordan, â dirprwyaeth bwysig i India, o dan arweiniad Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Sajid Javid AS, a Gweinidog y Prifysgolion a Gwyddoniaeth, Jo Johnson AS. Y nod oedd dathlu cysylltiadau presennol a cheisio denu myfyrwyr rhyngwladol i astudio yn y DU.

Ar wahân i Tsieina, nid oes yr un wlad arall sy'n darparu cynifer o fyfyrwyr rhyngwladol i astudio yn y DU. Mae 19,750 o fyfyrwyr o India yn astudio ar bob lefel. Mae tua 300 o fyfyrwyr o India yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd bob blwyddyn.

Croeso i'r Dreigiau

Bu'r gwleidydd benywaidd uchaf ei statws yn Tsieina yn goruchwyllo seremoni llofnodi cytundeb hanesyddol rhwng prifysgol flaenllaw Cymru ac un o ddeg prifysgol orau Tsieina.

Am y tro cyntaf yn y DU, bu Liu Yandong, Dirprwy Brif Weinidog Gweriniaeth Pobl Tsieina, yn dadorchuddio plac yng Nghaerdydd, fel symbol o lansiad coleg newydd dan arweiniad Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Normal Beijing.

Bydd myfyrwyr Cyd-Goleg Astudiaethau Tsieinëeg Caerdydd-Beijing yn dilyn cwricwlwm Astudiaethau Iaith a Diwylliant Tsieina a ddatblygwyd ar y cyd, gan arwain at ddyfarniad israddedig deuol gan y ddwy brifysgol.

Mynd i'r afael â gostyngiad mewn ieithoedd tramor modern

Lansiwyd cynllun newydd sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r 'gostyngiad difrifol' yn nifer y disgyblion ysgol yng Nghymru sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern. Cynllun peilot oedd hwn i ddechrau, ond mae'r ymyriad pwysig am geisio cynyddu nifer y disgyblion ysgol uwchradd ledled y wlad sy'n dewis ac yn llwyddo i astudio ieithoedd modern. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i strategaeth *Dyfodol Byd-eang*, sy'n cefnogi ieithoedd modern mewn ysgolion yng Nghymru. O dan y cynllun newydd, bydd israddedigion ieithoedd tramor modern yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi fel mentoriaid a hyfforddwyr, gan weithio mewn partneriaeth â disgyblion ysgol yn eu hardaloedd nhw.



Yn y llun mae Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, Liu Yandong, Dirprwy Brif Weinidog Gweriniaeth Pobl Tsieina, a'r Athro Colin Riordan, Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Dyngarwch

Mae dyngarwch yn rhan allweddol o genhadaeth Prifysgol Caerdydd i greu a rhannu gwybodaeth ac addysgu er budd pawb.

Roedd 2014-15 yn flwyddyn lwyddiannus o ran codi arian yn sgîl haelioni dros 700 o rhoddwyr o 16 gwlad ar draws y byd. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd gwerth dros £3.6m mewn addewidion newydd gan roddwyr, gan gynnwys cefnogaeth dros sawl blwyddyn gan gyrff fel Sefydliad Wolfston a Santander.

Mae pob ceiniog o'r arian a godir yn mynd yn uniongyrchol i ymchwil Prifysgol Caerdydd ac i gefnogi myfyrwyr, a bydd o les i genedlaethau'r dyfodol.

Gan roddwyr hael sy'n dewis gadael rhodd i Brifysgol Caerdydd yn eu hewyllys y cawn ran helaeth o'n hincwm dyngarol. Mae gan y cymynroddion hyn rôl hollbwysig wrth helpu i lunio ein byd, boed hyn drwy addysgu'r myfyrwyr mwyaf galluog neu ganfod atebion i rai o heriau mwyaf cymdeithas.

Mae cymynrodd hael gan Reginald a Marlene Roberts yn helpu myfyrwyr o Gymru fel Martika Mann ([Meddygaeth 2012-](#)) i barhau â'u haddysg er gwaethaf eu hamgylchiadau.

Dywedodd Martika:

“Rwy'n ffodus dros ben fy mod wedi cael fy newis i gael bwrsariaeth. Heb y gefnogaeth yma, does wybod sut byddwn wedi parhau i astudio fy ngradd. Erbyn hyn, rwy'n teimlo fy mod yn gallu canolbwyntio ar dreulio fy amser ble mae ei angen fwyaf – yn y llyfrgell ac ar yr wardiau yn dysgu gan gleifion.”

Yn 2014-15, cafwyd cyfanswm dros £140,000 mewn cymynroddion gwerth rhwng £8,000 a £75,000 i gefnogi myfyrwyr Caerdydd ac ymchwil sy'n newid bywydau. Mae pob rhodd wedi cael effaith barhaol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn hynod o ddiolchgar i bob rhoddwr. Mae eich cefnogaeth barhaus yn helpu i achub, newid a chyfoethogi bywydau yng Nghymru a thu hwnt.



“Pam na allwn ni fyw am 100 mlynedd – neu yn hytrach, ddychwelyd yma ymhen 100 mlynedd – a gweld canlyniadau'r gwaith hwnnw rydym ni a'n cyfeillion wedi llafurio drosto”

Arglwydd Aberdâr, 1884



Cylch Caerdydd

Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd gyda chymorth dyngarol hael.

Felly, eleni, i gydnabod pwysigrwydd parhaus rhoddion dyngarol, sefydlodd yr Is-Ganghellor **Cylch Caerdydd** - clwb arbennig iawn i gydnabod y rhai sy'n rhoi £1,000 neu fwy i'r Brifysgol yn ystod pob blwyddyn academiaidd.

Mae rhoddion **Cylch Caerdydd** yn helpu'r Brifysgol i drawsnewid syniadau yn realiti yn gyflym ac yn effeithlon, a gwneud gwahaniaeth hollbwysig i ddyrchafu addysgu ac ymchwil Caerdydd i'r lefel nesaf.

“Mae'n fater o gyfleu'r neges bod rhodd yn ddigon i weddnewid profiad myfyriwr. Mae achos grymus dros ddweud bod y sefydliadau sydd wedi dylanwadu ar eich datblygiad chi yn haeddu eich cefnogaeth, a dyma pam rwy'n falch o fod yn aelod o Gylch Caerdydd.”

Lyndon Bigmore (BEng 1981)
Aelod Sefydlu o **Gylch Caerdydd**


I ymuno â'r grwp eithriadol hwn o bobl ewch i:

www.cardiff.ac.uk/cylch-caerdydd

Perfformiad Ariannol


Grantiau a Chontractau Ymchwil

Allwedd	£M
Arall	11.9
UE a Thramor	15.1
Diwydiant a Masnach	4.3
Corfforaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU	31.5
Cynghorau Ymchwil a Elusennau	45.0





Incwm

Allwedd	£M
Preswylfeydd ac Arlwyath	25.2
Gwasanaethau a ddarparwyd	52.1
Gwaddolion a llog derbyniadwy	3.9
Grantiau gan Gynghorau Cyllido	67.4
Grantiau a Chontractau ymchwil	107.8
Ffioedd dysgu a grantiau cefnogi	219.8
Incwm gweithredu arall	6.4



Gwariant

Allwedd	£M
Gwasanaethau Academaidd	8.5
Ysgolion Academaidd	56.7
Costau staff	262.8
Dibrisiad	22.7
Llog taladwy	1.2
Preswylfeydd, Arlwyath a Chynadleddau	6.4
Grantiau a chontractau ymchwil	36.7
Eiddo	21.1
Gweinyddiaeth Gwasanaethau Canolog	5.4
Treuliau eraill	13.6
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	23.6



Cadwch mewn cysylltiad



I gael copi o'r Adolygiad Blynnyddol mewn fformat print bras, cysylltwch â'r Tim Cyfathrebu a Marchnata drwy ffonio **029 2087 0298**, ebost: communications@caerdydd.ac.uk

Cysylltwch ar bob cyfrif os oes gennych sylwadau ac awgrymiadau am yr adolygiad. Dylech anfon y rhain at Claire Sanders, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata, communications@caerdydd.ac.uk

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855



Graduation and Honorary Fellows

Welsh rugby team captain Sam Warburton joined broadcaster Susanna Reid, JoJo Maman Bébé founder Laura Tenison MBE and British novelist Philippa Gregory in receiving Honorary Fellowships, which are awarded to individuals who have achieved outstanding recognition in their field.

Graddio a Chymrodyr er Anrhydedd

Ymunodd capten tîm rygbi Cymru Sam Warburton, â'r ddarlledwraig Susanna Reid, sylfaenydd JoJo Maman Bébé, Laura Tenison MBE a'r nofelydd Prydeinig, Philippa Gregory i dderbyn Cymrodoriaethau Er Anrhydedd, sy'n cael eu dyfarnu i unigolion sydd wedi cael cydnabyddiaeth ragorol yn eu maes.



£2.6m of new funding for lightning lab

The Universities and Science Minister, Jo Johnson visited the University's Morgan-Botti Lightning Laboratory in September and committed £2.6m to its PROTEST research project. The project, which is also being led by Airbus, will develop new ways of protecting modern aircraft from lightning strikes.

£2.6m ar gyfer labordy mellit

Ymwelodd y Gweinidog Prifysgolion a Gwyddoniaeth, Jo Johnson, â Labordy Mellit Morgan-Botti y Brifysgol ym mis Medi, ac ymrwymodd £2.6m ar gyfer ei brosiect ymchwil PROTEST. Bydd y prosiect, sydd hefyd yn cael ei arwain gan Airbus, yn datblygu ffyrdd newydd o amddiffyn awyrennau modern rhag cael eu taro gan fellt.

New online resource of contemporary Welsh language

The first ever large-scale corpus of the Welsh language was announced. Our experts will play a key role in the project which will break new ground as a key language resource, compiling an initial data set of 10m Welsh words.

Adnodd Cymraeg cyfoes newydd ar-lein

Cyhoeddwyd y corpwys graddfa fawr gyntaf erioed o'r iaith Gymraeg. Bydd ein harbenigwyr yn chwarae rôl allweddol yn y prosiect fydd yn torri tir newydd fel adnodd iaith allweddol, gan lunio set data cychwynnol o 10m o eiriau Cymraeg.



2015 Our Year in Pictures | Ein blwyddyn mewn lluniau



The IAAF/ Cardiff University World Half Marathon Championships

We were unveiled as title partner for a major athletics event featuring many of the world's best runners. The Championships were the biggest half marathon to be held in Wales and the most significant athletics event hosted in the country since the 1958 British Empire and Commonwealth Games.

Pencampwriaeth Hanner Marathon y Byd IAAF/ Prifysgol Caerdydd

Cyhoeddwyd y Brifysgol fel partner teitl ar gyfer digwyddiad athletau pwysig a fydd yn denu llawer o redwyr gorau'r byd i Gaerdydd. Cynhelir Pencampwriaeth Hanner Marathon y Byd IAAF/Prifysgol Caerdydd yn y ddinas ar 26 Mawrth 2016. Hwn fydd yr hanner marathôn mwyaf i'w gynnal yng Nghymru a'r digwyddiad athletau mwyaf arwyddocaol yn y wlad ers Gemau'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Gymanwlad yn 1958.



Wales's most powerful MRI scanner arrives

A giant £6m MRI scanner with superior power to detect disease inside the human brain arrived at the new Cardiff University Brain Research Imaging Centre. The MRI scanner will help researchers to study a range of neurodegenerative and psychiatric disorders including dementia, schizophrenia and depression.

Sganiwr MRI mwyaf pwerus Cymru yn cyrraedd

Cyrraeddodd sganiwr MRI enfawr gwerth £6m, sydd â gallu eithriadol i ganfod clefyd yn yr ymennydd dynol. Ganolfan Delweddau Ymchwil yr Ymennydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd y sganiwr MRI yn helpu ymchwilwyr yn CUBRIC i astudio amrywiaeth o anhwylderau niwroddrywiol a seiciatryddol gan gynnwys dementia, sgïtsoffrenia ac iselder.

Has asthma's root cause been uncovered?

Our scientists identified the potential root cause of asthma and an existing drug that offers a new treatment. Working in collaboration with scientists at King's College London and the Mayo Clinic (USA), they described the previously unproven role of the calcium sensing receptor (CaSR) in causing asthma, a disease which affects 300m people worldwide.

Ydy achos sylfaenol asthma wedi'i ganfod?

Mae'n bosib fod ein gwyddonwyr wedi canfod achos sylfaenol asthma ynghyd â chyffwr sy'n bodoli eisoes sy'n cynnig triniaeth newydd. Gan weithio ar y cyd â gwyddonwyr yng Ngholeg King's yn Llundain a'r Clinig Mayo (UDA), mae'r ymchwilwyr wedi disgrifio'r rôl, nad yw wedi'i brofi o'r blaen, a chwaraeir gan y derbynnydd synhwyro calsiwm (CaSR) wrth achosi asthma, clefyd sy'n effeithio ar 300m o bobl ledled y byd.





'Maths Saves Lives' scooped prestigious prize

A University project, which uses mathematical modelling to unravel the complex reasons behind delays on hospital wards to cut waiting times and save lives, secured a prestigious Times Higher Education award. The 'Maths Saves Lives' project won the 'Outstanding Contribution to Innovation and Technology' category, which acknowledges and promotes breakthroughs that could significantly enhance commercial or public sector operations.

'Gwobr bwysig i 'Mathemateg yn Arbed Bywydau'

Mae prosiect o dan arweiniad y Brifysgol, sy'n defnyddio modelu mathemategol i ddatgelu'r rhesymau cymhleth am oedi ar wardiau ysbytai, i leihau amseroedd aros ac i achub bywydau, wedi ennill gwobr Times Higher Education uchel ei bri. Mae'r prosiect 'Mathemateg yn Arbed Bywydau' wedi ennill y categori Cyfraniad Rhagorol at Arloesedd a Thechnoleg, sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo datblygiadau a allai wella gweithrediadau masnachol neu sector cyhoeddus yn sylweddol.

Doctoral training partnership

The future of biomedical research in the UK received a vital boost thanks to a new collaborative PhD training programme worth £4.6m. Largely funded by the Medical Research Council (MRC), the new award to the GW4 Alliance will help fund over 50 postgraduate research students over the next three years.

Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol

Cafwyd hwb hanfodol i ddyfodol ymchwil biofeddygol yn y DU yn sgîl rhaglen hyfforddiant PhD gydweithredol newydd gwerth £4.6m. Bydd y dyfarniad newydd, sydd wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) yn bennaf, yn ariannu dros 50 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig dros y tair blynedd nesaf.

GW4

Fellow of the Royal Academy of Engineering

Professor Karen Holford was elected a Fellow of the Royal Academy of Engineering, one of the highest national honours an engineer can receive. The award recognises Professor Holford's distinguished research career in industry and academia, as well as her commitment to outreach activities and promoting engineering as a career.

Cymrawd yr Academi Beirianneg Frenhinol

Etholwyd yr Athro Karen Holford FREng (BEng 1984, PhD 1987) yn Gymrawd yr Academi Peirianneg Frenhinol - un o'r anrhyddedau cenedlaethol mwyaf y gall peiriannydd ei debyn. Mae'r anrhyddedd yn cydnabod gyrfa ymchwil nodedig yr Athro Holford mewn diwydiant ac yn y byd academaidd, yn ogystal â'i hymrwymiad i weithgareddau allgymorth ac i hyrwyddo peirianneg fel gyrfa.



Ser Cymru appointment

Professor Diana Huffaker, a leading expert in compound semiconductors (CS), was appointed to lead a new research laboratory with the power to turn the city into a global hub for CS research and exploitation.

Penodiad Sêr Cymru

Penodwyd un o arbenigwyr blaenllaw'r byd mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd (CS) i arwain labordy ymchwil newydd gyda'r pŵer i droi'r ddinas yn ganolfan fyd-eang ar gyfer ymchwil ac ecsbloetio CS.

National Software Academy launched

A National Software Academy, set up to train and educate the next generation of software engineers in Wales, was launched by the University and Welsh Government.

Run in partnership with the Alacrity Foundation in Newport, the three-year degree programme (BSc Applied Software Engineering) has been set up by our School of Computer Science and Informatics to address the current unmet demand for skilled software engineers in Wales.

Lansio'r Academi Meddalwedd Genedlaethol

Lansiwyd 'Academi Meddalwedd Genedlaethol' ar gyfer hyfforddi ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr meddalwedd yng Nghymru gan y Brifysgol a Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd y rhaglen gradd tair blynedd (BSc Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol), a gaiff ei rhedeg mewn partneriaeth â Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd, gan yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg i fynd i'r afael â'r galw am beirianwyr meddalwedd medrus yng Nghymru, nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd.



Conserving the history of space exploration

Alumna Lisa Young (BSc 1996) who graduated with a degree in Conservation of Museum Objects and Archaeology, was at the heart of the conservation work on Neil Armstrong's spacesuit from his walk on the moon in 1969.

Cadwraeth hanes archwilio'r gofod

Roedd y cynfyfyrwr Lisa Young (BSc 1996), a raddiodd gyda gradd mewn Cadwraeth Gwrthrychau Amgueddfa ac Archaeoleg, wrth ganol y gwaith cadwraeth ar y siwt ofod a wisgodd Neil Armstrong wrth gerdded ar y lleuad ym 1969.

